



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Asesiad HMI Wendy Williams o De Cymru – Trawsgrifiad

Mae Heddlu De Cymru'n darparu lefel dda o wasanaeth i'r cyhoedd ac rwyf yn falch ei fod wedi cynnal ei berfformiad ers fy asesiad blaenorol. Mae'r llu'n dda o ran atal troseddu a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae swyddogion cymdogaeth yn ymgysylltu'n dda â phobl leol ac mae ganddynt wybodaeth drwyadl o'u problemau a'u pryderon.

Rwyf yn falch iawn â'r gwelliannau mae Heddlu De Cymru wedi'u gwneud o ran sut mae'n amddiffyn pobl hyglwyf rhag niwed ac o ran sut mae'n cefnogi dioddefwyr. Erbyn hyn mae gan y llu ddealltwriaeth dda o natur a graddfa hyglwyfder ymhlith pobl yn Ne Cymru. Mae wedi hyfforddi staff i nodi dioddefwyr mynych a hyglwyf pan ydynt yn cysylltu â'r llu am y tro cyntaf.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran ymchwilio i droseddau ac yn cadw'r dioddefwr wrth ganol ei ymchwiliadau. Mae gan y llu drefniadau effeithiol i fynd ar ôl troseddwy'r sy'n weddill ac i leihau aildroseddu.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig. Mae'r llu'n cynnal asesiadau manwl o grwpiau troseddau trefnedig, y gellid eu gwella ymhellach trwy gynnwys data o sefydliadau partner. Mae swyddogion lleol yn ymwybodol o'r rhai hynny sy'n ymwneud â throseddoldeb trefnedig yn eu hardal ac maent yn ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau tarfu'r llu. Mae gan y llu nifer o fentrau i rwystro pobl ifanc rhag ymwneud â throseddau difrifol a threfnedig.

Rwyf yn llawn edmygedd o'r ddealltwriaeth sydd gan Heddlu De Cymru o'r galwadau cyfredol am ei wasanaethau, gan gynnwys galwadau cudd bondigrybwyll megis troseddu ar y rhyngwrwyd. Mae gan y llu systemau da ar gyfer deall galluoedd ei weithlu, sy'n ei alluogi i gydweddu sgiliau gweithredol â galwadau cyfredol. Mae'r llu'n defnyddio'r ddealltwriaeth hon i lywio adleoliad ei adnoddau, gan gynnwys y rhai hynny i atal galwadau rhagweledig.

Rwyf yn nodi bod gan y llu gynlluniau buddsoddi ar gyfer cyflawni mwy o effeithlonrwydd o ran darparu ei wasanaethau. Bydd y llu'n ymwybodol ei fod yn wynebu diffyg a allai fod yn sylweddol yn ei gyllideb.

I grynhoi, mae'r llu'n darparu lefel dda o wasanaeth i bobl De Cymru a byddwn yn cymeradwyo'r llu am gynnal ei berfformiad ers fy asesiad blaenorol.